



Ymddiriedolaeth Natur
Gogledd Cymru
North Wales
Wildlife Trust



Ymddiriedolaeth Natur
De a Gorllewin Cymru
Wildlife Trust of
South & West Wales

Gobeithio eich bod wedi bod yn mwynhau tymor prysur yn mynd i'r afael â rhywogaethau ymledol ledled Cymru! Er mwyn gwella'r ddeialog rhwng Rhwydwaith Ecolegol Gwydn Cymru (WaREN) a'i aelodau rydym bellach yn bwriadu anfon cylchlythyrau rheolaidd i rannu llwyddiannau, heriau a chyfleoedd fel hyfforddiant. Edrychwch ar ein cylchlythyr ar gyfer mis Medi a oedd yn llawn dop o ddiweddariadau ac erthyglau o bob rhan o Gymru! Gobeithio y byddwch yn mwynhau darllen ac mae croeso i chi ei rannu gydag unrhyw un sydd â diddordeb - gallant hefyd ymuno â'n Rhwydwaith drwy gysylltu â [Jess Minett](#).

Cylchlythyr Mis Medi

Diweddariad WaREN

Yn [WaREN](#) rydyn ni wedi bod yn brysur yr haf yma yn canolbwyntio ar ein hymgyrch [Ymledwyr Ecosystem](#). Nod yr ymgyrch ydi cynyddu ymwybyddiaeth o rywogaethau estron ymledol (rhywogaethau ymledol) a bioddiogelwch yng Nghymru, gan gynnwys Edrych, Golchi, Sychu a Mynd at Wraidd y Mater. Mae hyn wedi cynnwys ymgyrchu digidol a 'pop yps' ledled Cymru a mynychu'r Eisteddfod Genedlaethol yn Nhregaron. Yno fe wnaethon ni ymgysylltu'n uniongyrchol â bron i 1,500 o bobl gyda gweithgareddau gan gynnwys gêm eDNA a helpa rhywogaethau ymledol lle rhoddwyd pecyn am ddim o gardiau chwarae Ymledwyr Ecosystem (h.y. 'top trumps') i blant ar gyfer mynd ar helpa. Edrychwch ar [becyn partner](#) ein hymgyrch sy'n cynnwys deunyddiau y gallwch eu defnyddio ar gyfryngau cymdeithasol.



Mae Swyddogion Prosiect WaREN wedi bod yn ymgysylltu â Grwpiau Gweithredu Lleol, gan gynnwys cynnal gweminar ar gyfer adborth ar becyn adnoddau'r Grwpiau. Os hoffech chi i ni ymweld â chi, [cysylltwch â'r Swyddog Prosiect perthnasol](#).

Mae WaREN hefyd wedi bod yn rhan o'r gwaith o ailddatblygu Mapiwr INNS a fydd yn dod yn adnodd ym Mhrydain ar gyfer cofnodi rhywogaethau ymledol ac, yn bwysig iawn, eu rheolaeth. Dylai hwn fod yn barod i'w lansio erbyn Gwanwyn 2023 a byddwn mewn cysylltiad yn fuan gyda chyfleoedd i Grwpiau Gweithredu Lleol yng Nghymru gymryd rhan yn y broses ddatblygu.

Yn olaf, byddwn yn arwain gweithdy yng [Nghynhadledd Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru](#) (Hydref 3^{ydd} – 7^{fed}) ar strategaeth bioddiogelwch. Bydd y cofrestru ar gyfer y Gynhadledd yn agor yn fuan a gobeithio y gallwch chi ymuno â ni ar gyfer y gweithdy.

GGLI / Ymdrechion Gwirfoddolwyr

Prosiect Rhywogaethau Ymledol Gwy (WISP)

Mae wedi bod yn flwyddyn brysur hyd yma yn AHNE Dyffryn Gwy, wrth i ni barhau i fynd i'r afael â rhywogaethau ymledol ar hyd y ffin rhwng Cymru a Lloegr. Y gwanwyn yma fe wnaethom lansio ein 'Pecyn Adnoddau Gweithredu Ynghylch Jac y neidiwr' ar gyfer grwpiau gwirfoddol, sy'n cynnwys canllawiau y gellir eu lawrlwytho a dogfennau gweithreoli i helpu grwpiau i sefydlu, denu cefnogaeth, a chynnal digwyddiadau cymunedol llwyddiannus i fynd i'r afael ag ymlediad y Jac y neidiwr.

Yn dilyn y lansiad, fe wnaethom ymuno â WaREN a Sefydliad Gwy ac Wysg ym mis Mai i gynnal cyfres o 'Ddyddiau Hyfforddi'r Jac y neidiwr' ar gyfer trigolion lleol a grwpiau cymunedol yng Nghymru. Dechreuodd y dyddiau gyda thair sgwrs yn dangos y gwaith sydd ar y gweill ar lefel genedlaethol, ranbarthol a lleol, gan gynnwys yr hyn y gallwn ni fel unigolion ei wneud i atal ymlediad INNS a phwysigrwydd bioddiogelwch. Wedyn daeth yn amser rhoi ein dysgu ar waith a dechrau tynnu ychydig o Jac y neidiwr! Rhwng y ddau ddigwyddiad, amcangyfrifwyd bod 5,000 o blanhigion wedi'u tynnu o'r ddaear, gan leihau'r gronfa hadau bosibl o fwy na 4 miliwn o hadau! Roeddem wrth ein bodd gyda'r nifer a ddaeth i'r digwyddiadau yma ac rydym yn falch o adrodd bod lladd jac y neidiwr dan arweiniad y gymuned yn AHNE Dyffryn Gwy eisoes ar gynydd, gyda grwpiau newydd yn ffurfio ac yn perchnogi eu dalgylchoedd lleol.



Gyda'r Jac y neidiwr mewn had llawn, rydym bellach yn canolbwyntio ar drin targedau INNS eraill: Pidyn-y-Gog Americanaidd a Chanclwm Japan. Yn ystod mis Medi, byddwn yn cydlynu ein rhaglen reoli flynyddol, ond yn treialu pigiad yn y coesyn am y tro cyntaf eleni lle mae nifer bach o ganclwm.

Ceidwaid Afon Hafren a rhywogaethau ymledol

Sefydlwyd Ceidwaid Afon Hafren yn 2012 i astudio pob agwedd ar yr Afon Hafren a'r ardal o'i chwmpas ar hyd darn 4 milltir o amgylch y Drenewydd. Un prif ffocws oedd rhywogaethau ymledol.

Bob blwyddyn rydym wedi mynd allan i dorri a chloddio planhigion Efwr Enfawr peryglus, yn enwedig mewn ardaloedd lle mae pobl yn cerdded a phlant yn chwarae. Yn ystod y blynyddoedd cynnar, roedd llawer o blanhigion enfawr ond, dros y blynyddoedd, mae'r rhain wedi cael eu dileu i raddau helaeth ac erbyn hyn eginblanhigion llai yn bennaf sydd i'w gweld, wedi'u cynhyrchu o hadau a gludwyd i lawr yr afon o ymhellach i fyny. Rydym hefyd wedi ceisio addysgu pobl am beryglon y planhigyn hwn.

Rydym hefyd yn monitro Canclwm Japan ac yn rhoi gwybod i Gyfoeth Naturiol Cymru am unrhyw bla, yn enwedig yr angen am strwythurau amddiffyn rhag llyfogydd. Wedyn mae CNC yn trin y planhigion

gyda chwynladdwr addas. Rydym yn gadael Canclwm Japan i raddau helaeth oni bai ei fod yn cyfyngu ar fynediad i'r afon. Fodd bynnag, rydym yn annog pobl i fwyta'r hadau, y blodau a'r egin.

Rydym hefyd wedi bod yn monitro'r Cimwch Afon Signal Americanaidd ers 2012. Mae'r rhywogaeth ymledol hon yn ffynnu yn ein rhan ni o'r afon ac mae'n ffynhonnell bwysig o fwyd i'r dyfrgwn brodorol. Hyd yma, nid ydym erioed wedi gweld unrhyw gimwch afon brodorol, maent wedi cael eu dileu gan yr ymledwyr. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf rydym hefyd wedi gweld mincod ar hyd yr afon. Does dim niferoedd mawr hyd yma, ond maent yn bresennol yn sicr.



Rhaglen Afonydd Iach Groundwork Cymru yn lleihau'r Jac y neidiwr yng Nghaerffili

Yr haf yma mae Rhaglen Afonydd Iach Groundwork Cymru wedi gweithio gyda thrigolion Caerffili i helpu i wella cyflwr Afon Nant-yr-Aber a'i dalgylch.

Mae'r Jac y neidiwr wedi ymledu i rannau helaeth o Nant-yr-Aber gan reoli ar draul llawer o rywogaethau brodorol. Mae mwy na 39 o wirfoddolwyr wedi treulio mwy na 250 o oriau yn tynnu'r Jac y neidiwr a Sbwriel o Nant-yr-Aber. Mae hyn wedi arwain at glirio mwy na 22.5 m² o afon, a fydd yn arafu ymlediad y Jac y neidiwr ar hyd Nant-yr-Aber yn aruthrol.



Nid oedd llawer o'r gwirfoddolwyr yn ymwybodol o'r Jac y neidiwr a'i effaith ar yr ecoleg leol. Dysgwyd y gwirfoddolwyr sut i'w adnabod, pryd i'w dynnu, sut i'w dynnu a sut i'w bentyrru. Yn ogystal â lleihau poblogaeth y Jac y neidiwr yn yr afon, casglodd y gwirfoddolwyr 410 o fagiau o sbwriel a chasglu tua 3,000kg o eitemau na allai ffitio i mewn i fagiau.

Ariannwyd y prosiect drwy'r Cynllun Treth Cymunedau Gwaredu Tirlenwi – rhaglen grant gan Lywodraeth Cymru sy'n cael ei dosbarthu gan WCVA.



Am ragor o wybodaeth cysylltwch â: Nicole.jones@groundwork.org.uk

Grŵp Planhigion Ymledol Elwy

Ffurfiwyd Grŵp Planhigion Ymledol Elwy gennym yng Ngwanwyn 2022. Ein hunig nod, ar hyn o bryd o leiaf, yw ymosod ar ymlediad brawychus y Jac y neidiwr yn Nyffryn Elwy ac, yn fwy penodol, oddi mewn i ffiniau Dinas Llanelwy.

Mae gennym bwyllgor gweithgar o 4 aelod, ac rydym yn cynnal sesiynau tynnu Jac y neidiwr ar hyd glannau'r Elwy yn Llanelwy unwaith neu ddwywaith yr wythnos, gan hysbysebu hyn ar ein cyfrifon cyfryngau cymdeithasol. Fel rheol mae 4 i 8 o wirfoddolwyr yn dod i'r sesiynau. Mae un aelod o'n pwyllgor yn uwch aelod o bwyllgor clwb genweirio'r Rhyl a Llanelwy hefyd, sy'n cynnal eu rhaglenni gwaith cynnal a chadw eu hunain ar hyd glannau'r Elwy. Mae hyn yn gorgyffwrdd yn wych â'n gwaith, gan gynyddu graddfa ein gwaith o dynnu'r Jac y neidiwr. Mae hefyd yn hwyluso mynediad i'r lan. Yn gyffredinol, rydym wedi gwneud cynnydd da gyda'n poblogaeth leol o'r Jac y neidiwr, ond bydd yn 2023 cyn y gallwn weld a ydym wedi cael effaith amlwg.

Hoffem gael arweiniad gan brofiad pobl eraill ar: sathru (rydym yn amau ei fod yn eithaf effeithiol ar glystyrau mawr heb orfod treulio gormodedd o amser), strimio, ac a yw planhigion Jac y neidiwr bach sy'n blodeuo'n hwyr yn parhau'n ffrwythlon ac yn cynhyrchu hadau? Unrhyw gynigion?

Rydym bob amser yn chwilio am gefnogaeth bellach, felly os hoffech chi ymuno â ni, cysylltwch drwy ein tudalen Facebook o'r enw "Elwy Invasive Plant Group".



Tim Mainland ar ran Grŵp Planhigion Ymledol Elwy, Llanelwy.

Pidyn-y-Gog Americanaidd - Ymledwr Estron

Pidyn-y-gog Americanaidd: Dyma berlysiuyn bythol, sy'n fawr, yn feiddgar ac yn felyn ac mae wedi cael ei enw yn Saesneg – *American Skunk Cabbage* – am ei fod yn eithaf drewllyd! Mae gan y planhigyn ddail ledr gwyrdd enfawr hyd at 1m o hyd ac mae'n cynhyrchu 'blodyn' melyn llachar ym mis Ebrill. Mae'r pigyn canolog yn cynnwys y blodau go iawn sy'n troi'n had ym mis Gorffennaf / Awst. Gall yr hedyn yma gael ei wasgaru gan ddŵr, adar neu anifeiliaid (gan gynnwys bodau dynol). Daw'r arogl, sydd i fod yn debyg i gig sy'n pydru, pan fydd dail y planhigyn a'r cwcwll yn cael eu gwasgu.

Mae'n rhywogaeth ymledol estron sydd wedi cyrraedd y DU drwy fewnforion gardd. Cyn cael ei wahardd rhag cael ei werthu yn 2016, gallech chi





weld y planhigyn hwn yn cael ei werthu fel planhigyn ddurniadol delfrydol ar gyfer gerddi cors. Yn anffodus, nid oedd yn fodlon ar aros mewn gerddi a gan ei fod yn blanhigyn gyda dail eithriadol fawr, mae'n tueddu i gysgodi a chael y gorau ar fflora gardd a brodorol. Mae hefyd yn fedrus am ffynnu mewn llawer o wahanol amodau. Er y gall yr ymledu cychwynnol fod yn eithaf araf, gan fod y planhigyn yn cymryd 3 blynedd i aeddfedu, blodeuo a chynhyrchu hadau, ar ôl hynny gall yr ymledu fod yn gyflym. Gall yr hadau aros yn hyfyw am 8 i 9 mlynedd.

Mae canfod a rheoli planhigion ymledol yn gynnar yn allweddol i lwyddiant cyn y gallant ymledu. Roedd neges am ddod o hyd i'r planhigion hyn yn y gwyllt yn ardal Talgarth (y cofnod cyntaf erioed y tu allan i ardd yn y Parc Cenedlaethol) yn golygu y gallai Tîm Rhywogaethau Ymledol y Parc weithredu i reoli'r broblem cyn iddo ledu. Wedi'i gofnodi gyntaf yn 2021 gydag 17 o blanhigion erbyn iddynt gael eu trin gan y tîm INNS, yn haf 2022 roedd 30 o blanhigion. Hefyd mae'r tîm Rhywogaethau Estron Ymledol wedi nodi'r ffynhonnell fel pwll gardd gerllaw ac maent yn gweithio gyda'r perchennog i reoli'r ffynhonnell. Bydd rhaid i ni fonitro'r safle yn flynyddol am o leiaf 9 mlynedd i sicrhau ein bod wedi cael y gorau ar unrhyw hadau sydd yn y pridd.

Os gwelwch chi'r planhigyn yma yn y gwyllt ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, e-bostiwch: Beverley.Lewis@beacons-npa.gov.uk

Gwarchodfa Natur Coed Brynna a Chors Llanharan: Lladd y Jac y neidiwr 2022 – Mark Steer

Mae gan Warchodfa Natur Coed Brynna a Chors Llanharan yn Rhondda Cynon Taf lawer o Jac y neidiwr ond mae'n anodd ceisio rheoli llawer ohono oherwydd diffyg mynediad, yn enwedig mewn ardaloedd corsiog. Fodd bynnag, aethpwyd i'r afael â nifer o ardaloedd hygyrch yn 2022 ac mewn blynyddoedd blaenorol.

Mae gwirfoddolwyr YNDGC wedi bod yn tynnu'r planhigyn ar hyd ymylon y llwybr. Rwyf wedi trefnu nifer o nosweithiau gwirfoddoli ym mis Gorffennaf i fynd i'r afael ag ardaloedd eraill. Roedd hyn yn cynnwys Cybiau a Sgowtiaid lleol yn gweithio mewn ardal wedi'i thocio yn ddiweddar lle roedd Jac y neidiwr wedi datblygu'n gyflym. Bu tua 25 o Gybiau a'u harweinwyr yn gweithio ar hyn, gan lwyddo i wneud cynnydd mawr yn yr ardal yma mewn tua awr. Roeddent yn frwdfrydig iawn ac eisiau dod yn ôl!

Rydw i hefyd wedi gweithio mewn ardaloedd lle mae Chwilod Olew Fioled yn bresennol ac wedi cael rhywfaint o lwyddiant yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Bydd angen monitro a thynnu yn y dyfodol er mwyn llwyddo i gadw'r ardaloedd hyn yn glir o Jac y neidiwr.

Crwydrwyr Cymru: Llwybrau i Lesiant

Mae prosiect blaenllaw Crwydrwyr Cymru, Llwybrau i Lesiant, yn gweithio gyda 18 o gymunedau ledled Cymru i roi cerdded wrth galon cymunedau, drwy gysylltu pobl leol â'u rhwydwaith llwybrau a gwella mynediad i fannau gwyrdd. Mae'r prosiect yma wedi derbyn cyllid drwy Raglen Datblygu Gwledig - Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru 2014-2020, sy'n cael ei chyllido gan Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig a Llywodraeth Cymru.

Gan weithio'n rhanbarthol mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol, Ymddiriedolaethau Natur Cymru a Choed Cadw, mae tîm o Swyddogion Rhanbarthol Crwydrwyr Cymru yn hyrwyddo mynediad i fannau gwyrdd, gwella'r amgylchedd cerdded, darparu adnoddau a hyfforddiant i nodi a dylunio llwybrau newydd, yn ogystal â gwella ac uwchraddio'r rhai presennol. Yn ogystal, maent yn hybu bioamrywiaeth leol gyda gweithgareddau fel plannu coed, hadu blodau gwyllt, clirio rhywogaethau estron ymledol (INNS) a dyddiau gweithgarwch bywyd gwyllt.

Wrth fynd i'r afael â Rhywogaethau Estron Ymledol y mae Crwydrwyr Cymru wedi bod yn gweithio'n agos gyda Rhwydwaith Ecolegol Gwydn Cymru (WaREN) yn ogystal â Phartneriaethau Natur Lleol Cymru, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Dŵr Cymru, Cymdeithas Eryri, prosiect Pwyth Mewn Pryd Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro a grwpiau gwirfoddol cymunedol. Rydym wedi cyflwyno sesiynau yn addysgu pobl am adnabod a chofnodi INNS, a sut i roi dulliau bioddiogelwch ar waith i atal eu hymlediad. Mae gwirfoddolwyr Crwydrwyr Cymru wedi cael gwared ar fwy na 4,000 metr o rywogaethau o blanhigion ymledol, ledled Cymru, gan gynnwys y Jac y neidiwr, Crib-y-Ceiliog, Coed Mêl a'r Bachgen Llwm.

I gael rhagor o wybodaeth am Grwydrwyr Cymru ewch i: www.ramblers.org.uk/wales

I gael rhagor o wybodaeth am y prosiect ewch i: www.ramblers.org.uk/pathstowellbeing



Cymdeithas Eryri/ Snowdonia Society

Fel un o bartneriaid craidd Partneriaeth Tirwedd y Carneddau rydym wedi cyfeirio ein hegni a'n hadnoddau at reoli'r Jac y neidiwr yn ardal y Carneddau yn Eryri.

Eleni treuliodd ein gwirfoddolwyr gyfanswm o 375 o oriau yn tynnu'r Jac y neidiwr! Fodd bynnag, dim ond cyfran fechan o'r oriau a dreuliodd gan grwpiau cymunedol anhygoel y Carneddau y mae hyn yn ei gynrychioli. Yn ystod y 3 blynedd nesaf, ein cenhadaeth yw darparu cefnogaeth a chymorth i'r bobl leol ymroddedig yma drwy roi'r wybodaeth a'r sgiliau sydd arnynt eu hangen i reoli'r planhigyn yn llwyddiannus.

Fel rhan o'r strategaeth hon, rydym wedi bod yn cyflwyno modiwlau hyfforddiant ymarferol ac achrededig am ddim. Mae'r rhain yn rhoi sylw i sut i adnabod a mynd i'r afael â'r jac y neidiwr yn gywir a sut i sefydlu a rheoli gweithgareddau lladd jac y neidiwr (ar gael ar-lein yn fuan). Rydym hefyd wrthi'n creu map ar-lein o'r Carneddau sy'n dangos dosbarthiad y Jac y neidiwr (yn seiliedig ar gofnodion a anfonwyd atom gan y cyhoedd) a ble mae'n cael ei drin a chan ba grŵp. Gobeithio y bydd hyn yn taflu goleuni ar y gwaith anhygoel sy'n cael ei wneud, yn annog mwy o gymunedau i gymryd rhan ac, yn bwysig, yn datblygu ymdeimlad o undod a chefnogaeth ymhlith y bobl sy'n chwarae rhan weithredol yn y frwydr yn erbyn y jac y neidiwr.

Fe wnaethom hefyd fentro i drochi bysedd ein traed yn y dasg fwdlyd a gwlyb o gael gwared ar bidyn-y-gog Americanaidd, gan lwyddo i glirio rhannau wedi'u blocio o Nant Gwryd ac afon Glaslyn. Mae hwn yn bendant yn rhywbeth rydym yn awyddus i barhau ag ef yn y dyfodol... mewn dillad dal dŵr y tro nesaf efallai!

Ymchwil

Astudiaeth Achos: Bioreolaeth *Crassula*

Mae *Crassula helmsii*, sy'n cael ei adnabod yn gyffredin fel corchwyn Seland Newydd neu friweg cors Awstralia, wedi bod yn bresennol ers 2005 mewn pwell comin ucheldirol ger Libanus ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Wedi'i werthu'n wreiddiol mewn canolfannau garddio fel planhigyn ocsigeneiddio, arweiniodd ei briodweddau dinistriol yn y gwyllt at ei wahardd rhag cael ei werthu yn 2014. Nid yw'r planhigyn yn marw dros y gaeaf ac mae'n ffurfio monoddiwylliant cryf, gan gysgodi a chyfyngu ar argaeledd ocsigen a maethynnau ar gyfer ein bywyd gwyllt brodorol, gan leihau gwerth y pwell i fioamrywiaeth.

Ers 2005, rhoddwyd cynnig ar wahanol ddulliau rheoli: cysgodi gyda phlastig du, tynnu â llaw, trin gyda chwynladdwr, tynnu gyda pheiriannau, rhoddwyd cynnig ar y rhain i gyd heb unrhyw lwyddiant gwirioneddol. Hyd yn oed os oedd yn edrych fel bod rhywfaint o effaith wedi'i chael un flwyddyn, y flwyddyn ganlynol roedd y *Crassula* yn ei ôl cyn gryfed ag erioed! Roedd angen dulliau rheoli newydd, a'r ateb oedd bioreolaeth a gwiddon maint microsgopig wedi'u dewis a'u magu'n arbennig gan wyddonwyr [CABI](#) (y Ganolfan ar gyfer Amaethyddiaeth a Biowyddoniaeth Ryngwladol) i wleda ar y *Crassula* gan achosi iddo ddatblygu bustlau a lleihau ei egin a'i dyfiant. Doedd hwn ddim yn ateb hud, ond yn adnodd i leihau egni ac iechyd y planhigyn a rhoi cyfle i blanhigion brodorol gystadlu efallai.



Diolch i gyllid gan Gyfoeth Naturiol Cymru a Llywodraeth Cymru, dewiswyd ein safle fel un o'r safleoedd treialu yng Nghymru. Fe wnaeth cyllid gan WaREN ein galluogi i sefydlu monitro gwirfoddol ar gyfer y safle.



Rhyddhawyd y gwiddon am y tro cyntaf ym mis Gorffennaf 2022, gyda phlanhigion *Crassula* a heintiwyd gan widdon yn cael eu gosod mewn 16 plot mewn cornel fechan o'r pwll. Wedyn cawsom ddau gyfnod o dywydd poeth eithriadol ac roeddem yn poeni efallai na fyddai'r planhigion (na'r gwiddon) wedi goroesi'r tywydd crasboeth a lefelau'r dŵr yn gostwng. Rydym wedi bod yn monitro'r plotiau bob pythefnos gan ddefnyddio monitro ffotograffig a chwadratau i asesu faint o lwyddiant mae'r gwiddon yn yn ei gael. Roeddem yn falch o ddarganfod, cyn gynted â phythefnos ar ôl dechrau, bod y gwiddon wedi symud oddi wrth y *Crassula* gwreiddiol at y *Crassula* presennol yn y pwll.

Ar ôl 4 wythnos, er bod dau o'r planhigion cynnal gwreiddiol wedi sychu a marw, roedd pob un o'r 16 o blotiau yn dangos arwyddion o haint ar y *Crassula* presennol ar y safle. Nawr ein bod yn gwybod y gall y gwiddon oroesi haf yng Nghymru a thywydd poeth iawn, y cwestiwn allweddol ydi a allant oroesi gaeaf yng Nghymru a mynd o dan y dŵr?

Fedrwn ni ond gobeithio! Bev Lewis (Beverley.Lewis@beacons-npa.gov.uk)

Ydych Chi Wedi Gweld Dail-Ceiniog Arnofiol yng Nghymru?

Mae CNC eisiau sicrhau gwell dealltwriaeth o ddsbarthiad a statws rheoli Dail-ceiniog arnofiol (*Hydrocotyle ranunculoides*) yng Nghymru. Mae'n rhywogaeth o bryder arbennig sydd wedi ymledu'n eang ac sydd wedi'i rhestru o dan Reoliad yr UE 1143/2014 sydd wedi'i gadw, Gorchymyn Rhywogaethau Estron Ymledol (Gorfodi a Thrwyddedu) 2014.

A wnewch chi edrych ar fap dosbarthiad y BSBI - fap dosbarthiad *Hydrocotyle ranunculoides* (BSBI) ac ar fap dosbarthiad Atlas Cymru NBN ar gyfer eich ardal a chadarnhau'r canlynol:

1. Ydych chi'n ymwybodol o unrhyw safleoedd eraill sydd â Dail-ceiniog arnofiol yn eich ardal nad ydynt wedi'u cofnodi? Os felly, ble maen nhw (rhowch gyfeirnod grid*)?
2. Oes unrhyw rai o'r safleoedd yn eich ardal yn cael eu rheoli (h.y. i'w dileu/rheoli)?
3. Oes unrhyw un o'r safleoedd hyn, lle maent wedi'u cofnodi ar wefannau'r NBN/BSIS, wedi'u dileu? Os felly, pa safleoedd?

Anfonwch eich ymatebion at: Theresa.kudelska@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk erbyn 22^{ain} Medi 2022.

*Gallwch ddod o hyd i'r cyfeirnod grid ar gyfer lleoliad drwy chwyddo i mewn gan ddefnyddio'r wefan ganlynol a de-glicio ar y lleoliad ar y map: <https://gridreferencefinder.com/>. Yn ogystal â rhoi gwybod i CNC am gofnod newydd o Ddail-ceiniog arnofiol (nad yw wedi'i gofnodi ar BSBI nac Atlas yr NBN), byddai CNC yn annog unrhyw un sydd â chofnod newydd o Ddail-ceiniog arnofiol (*Hydrocotyle ranunculoides*) i gyflwyno eu cofnod gan ddefnyddio'r ap iRecord (neu ar-lein) neu Ap LERC Cymru sy'n ddwyieithog. Unwaith y cânt eu dilysu, bydd y cofnodion a gyflwynir gan ddefnyddio'r dulliau hyn yn cael eu cynnwys yn y gronfa ddata ar-lein o gofnodion rhywogaethau (Atlas Cymru yr NBN) a byddant yn cyfrannu at ddeall ymlodiad a dosbarthiad y rhywogaeth.

Ydi planhigion ymledol yn difetha eich profiad pysgota?

Pysgota hamdden yw un o hobïau chwaraeon mwyaf y byd. Mae'r gamp yn cyfrannu'n sylweddol at yr economi, ond hefyd yn ategu ein bwyd, ac yn cael effeithiau cadarnhaol ar les pobl. Fodd bynnag, mae pysgodfeydd dŵr croyw yn cael eu bygwth fwyfwy gan nifer o elfennau sy'n achosi straen, er enghraifft newid yn yr hinsawdd, a phlanhigion dŵr ymledol. Mae llawer o ymchwil wedi'i wneud i effeithiau newid yn yr hinsawdd ar ecoleg pysgod, ond mae llai o ddiddordeb ymchwil wedi bod mewn planhigion ymledol.

Mae planhigion dŵr ymledol wedi costio \$20 biliwn i'r economi fyd-eang yn ystod yr 20 mlynedd diwethaf. Mae'r gost hon yn cael ei hachosi gan rwystro defnyddwyr rhag defnyddio dyfrffyrdd, blocio seilwaith, costau rheoli, a newid priodweddau ecosystemau sy'n effeithio'n negyddol ar gymunedau dyfrol - gan gynnwys pysgodfeydd.



Rydym eisiau deall y ffordd y mae planhigion ymledol yn effeithio ar bysgodfeydd y DU a chael barn pysgotwyr a defnyddwyr dyfrffyrdd am blanhigion ymledol. Bydd y data gaiff eu casglu yn ein helpu ni, a chydweithwyr (e.e. yr Ymddiriedolaeth Bysgota, yr Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd) i geisio am gyllid i gael gwared ar blanhigion ac adfer dyfrffyrdd.

[A fyddech cystal â rhoi ychydig funudau o'ch amser i lenwi'r arolwg yma: forms.ncl.ac.uk/view.php?id=15100455](https://forms.ncl.ac.uk/view.php?id=15100455)

Mae'r prosiect hwn yn cael ei arwain gan dîm ymchwil ym Mhrifysgol Newcastle a Phrifysgol Leeds, gyda chefnogaeth gan yr Ymddiriedolaeth Bysgota.

Gellir cyfeirio unrhyw ymholiadau at: Dr Zarah Pattison (zarah.pattison@newcastle.ac.uk) a Dr Josie South (j.south@leeds.ac.uk)

Digwyddiadau

Banwy Wych!

Ymunodd Ymddiriedolaeth Natur Sir Drefaldwyn â Jess Minett, swyddog prosiect WaREN gydag Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru, a Phil Ward, arbenigwr ar infertebrata afonydd o Ymddiriedolaeth Natur Sir Faesyfed, i gyflwyno ein digwyddiad 'Banwy Wych'.

Buom yn edrych ar ba infertebrata afon sy'n byw yn y Banwy, yn dangos sut i gymryd sampl a beth mae'r canlyniadau'n ei ddweud wrthym am gyflwr yr afon. Roedd y digwyddiad hefyd yn canolbwyntio ar bwysigrwydd cymryd camau bioddiogelwch fel Edrych Golchi Sychu' i gadw ein hafonydd yn ddiogel rhag llygryddion a rhywogaethau ymledol fel y cimwch afon signal sy'n achosi llawer iawn o niwed i'r amgylchedd.

Roedd y digwyddiad yn llawn hwyl ac roedd nifer dda yn bresennol, a buom yn ddigon ffodus i ddod o hyd i amrywiaeth o infertebrata, gan gynnwys rhai pryfed cadis cloriog trawiadol, nymffau cylion Mai, a rhai pysgod nodedig fel gwrachod barfog a phennau lletwad.



Digwyddiadau i Ddod:

Digwyddiad Lladd Rhywogaethau Ymledol, Llanfairfechan 19^{eg} Medi. Bydd hwn yn sesiwn ymarferol a fydd yn cynnwys llawer o gloddio crib-y-ceiliog a rhywogaethau eraill. Os oes gennych chi fenig a thrywel, dewch â nhw gyda chi! Cynhelir gan Grwydrwyr Cymru, Cyngor Conwy ac Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru. Os oes gennych chi ddi-ddordeb mewn mynychu e-bostiwr Gareth Holland-Jones: (Gareth.Holland-Jones@northwaleswildlifetrust.org.uk). Bydd cadarnhad o leoliad y cyfarfod yn cael ei anfon yn ystod yr wythnos sy'n dechrau ar 12^{fed} Medi.

Cynhadledd Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru (PBC) 3^{ydd} – 7^{fed} Hydref. Bydd y cofrestru ar gyfer y gynhadledd yn agor yn fuan.

Hyfforddiant

Dyddiau Hyfforddiant Rhododendron Ymledol:

Ymunwch â Thimau WaREN a Celtic Rainforest ar gyfer 'Diwrnod Hyfforddiant Rhododendron Ymledol' a darganfod sut i fynd i'r afael â Rhododendron yng Nghymru:

- Dydd Mercher 14^{eg} Medi – Cwm Elan
- Dydd Sadwrn Medi 24^{ain} - Plas Tan y Bwlch
- Dydd Iau 29^{ain} Medi - Coed y Brenin
- Dydd Sadwrn 8^{fed} Hydref - Dolaucothi

Mwy o wybodaeth ac archebu eich lle gan ddefnyddio'r dolenni uchod!

Hyfforddiant WaREN ar gyfer Grwpiau Gweithredu Lleol a Gwirfoddolwyr

Mae WaREN eisiau hwyluso Grwpiau Gweithredu Lleol (GGLI) a gwirfoddolwyr ledled Cymru i fynd i'r afael â rhywogaethau ymledol. Ar hyn o bryd rydym yn trefnu hyfforddiant chwistrellu a strimio. **Os ydych chi'n GGLI / gwirfoddolwr yng Nghymru sy'n mynd i'r afael â rhywogaethau ymledol, llenwch y ffurflen** yma. Rydym eisiau gwybod pa hyfforddiant fyddai o fudd i chi / eich Grŵp Gweithredu Lleol.

Mwy o wybodaeth am WaREN

Mae Prosiect Rhwydwaith Ecologol Gwydn Cymru (WaREN) yn cael ei ddarparu gan Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru ac Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru. Mae WaREN yn cael ei gyllido gan Gynllun Rheoli Cynaliadwy Llywodraeth Cymru tan fis Ebrill 2023.

